POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

GWRANDAWIAD CADARNHAU – 16 RHAGFYR 2013

PENODIAD ARFAETHEDIG DIRPRWY GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Cefndir

Llunnir yr adroddiad hwn yn unol â Pharagraff 10, Atodlen 1 (yr Atodlen) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

Penodiad arfaethedig Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Cynhaliodd y Panel wrandawiad cadarnhau yn unol â Pharagraffau 10 ac 11 yr Atodlen, fel rhan o raglen cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy, ddydd Llun, 16 Rhagfyr 2013.

Ystyriodd y Panel lythyr gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn enwebu Mr. Julian Sandham i swydd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd.

Yn unol â Pharagraff 11 yr Atodlen, roedd yr ymgeisydd bwriedig yn bresennol yn y cyfarfod, er mwyn ateb cwestiynau yn ymwneud â'r penodiad.

Adolygodd y Panel y penodiad arfaethedig a'r meini prawf a ddefnyddiwyd gan y Comisiynydd i bennu ei enwebiad ar gyfer y swydd hon.

Argymhellion

> **Penodi Mr. Julian Sandham fel y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd.**

Rhagfyr 2013